



Ein cyf/Our ref: DET/65/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Rhagfyr 2019

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ar 7 Tachwedd, yn dilyn fy natganiad ar 29 Hydref ynghylch Rheoliadau'r Rhaglen Ewrop Greadigol a'r Rhaglen Ewrop i Ddinasyddion (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019. Gwnaeth fy natganiad esbonio'r cyd-destun ar gyfer yr OS a'r rhesymeg dros Weinidogion Cymru yn cytuno i'r OS ac yn ymrwmo i Gytundeb Asiantaeth gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o ran y rhaglenni hyn. Roedd hyn er mwyn caniatáu i reoliadau'r UE yn ymwneud â'r rhaglenni hyn i gael eu dirymu pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cymorth ariannol i gyfranogwyr y rhaglenni hyn yng Nghymru o dan Warant Llywodraeth ei Mawrhydi pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ar waith.

Yn fy natganiad, esboniais fod yr OS wedi'i wneud a'i osod gerbron y Senedd heb inni wybod ym mis Mawrth eleni, er na chawsom ein hysbysu o hyn ar y pryd. Esboniais hefyd y cyfnewid gohebiaeth rhwng Gweinidogion a fu ar ôl iddi ddod yn glir bod y Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng ein Llywodraethau wedi'i dorri, yn ogystal â'm penderfyniad yn y pendraw, mewn ymgynghoriad â'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, i gydsynio â'r Cytundeb Asiantaeth ac i roi cydsyniad ôl-weithredol ar gyfer yr OS.

Yn eich llythyr rydych yn cydnabod bod y Cytundeb Rhynglywodraethol wedi'i dorri'n anfwriadol gan Lywodraeth y DU, ond rydych yn nodi na chafodd y Cynulliad Cenedlaethol ei hysbysu am hynny ar 29 Hydref, gan ofyn am esboniad pellach am yr amseriad yn yr achos hwn.

Rwy'n cytuno fod y cyfnod amser rhwng pan dorrwyd y Cytundeb Rhynglywodraethol a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei hysbysu amdano yn yr achos hwn yn fwy nag arfer ac nad oedd yn ddelfrydol. Yn anffodus, mae llawer o'r materion sy'n gysylltiedig â Brexit yn gymhleth ac yn ddigynsail. Pan na lynir at gytundebau sefydledig na phrosesau cyfreithiol a gynlluniwyd i alluogi Gweinidogion a swyddogion i ddelio â materion o'r fath, fel yn yr achos hwn, gall fod yn anodd ac yn drafferthus sicrhau yn ôl-weithredol fod ein camau gweithredu arfaethedig yn parhau i gydymffurfio a'u bod yn gadarn yn gyfreithiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein blaenoriaeth drwy gydol y broses hon, wedi'i gorfodi gan yr OS, oedd sicrhau bod mecanwaith cyfreithiol yn cael ei roi ar waith i ganiatáu i dderbynyddion Ewrop Greadigol ac Ewrop i Ddinasyddion yng Nghymru a allai fod â'r hawl i gyllid o dan Warant Llywodraeth ei Mawrhydi i'w dderbyn yn brydlon, heb fod o dan anfantais. Roedd hefyd yn hanfodol sicrhau bod y mecanwaith hwn yn parchu'r setliad datganoli yn briodol ac nad yw'n peri unrhyw leihau o ran pŵer Gweinidogion Cymru.

O dan yr amgylchiadau hyn, roedd y Cwnsler Cyffredinol a minnau o'r farn nad oedd yn ddigonol ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad yn unig ynghylch torri'r Cytundeb Rhynglywodraethol; dylem hefyd fod yn gallu rhoi sicrwydd i'r Aelodau nad oedd unrhyw broblemau cyfreithiol parhaus o ganlyniad a bod mecanwaith priodol wedi'i gytuno i ddiogelu'r sawl sy'n derbyn cyllid yng Nghymru.

Gobeithiaf y byddwch yn derbyn fy sicrwydd fod fy natganiad llafar wedi'i wneud cyn gynted ag yr oedd yn bosibl unwaith yr oeddwn yn gallu cadarnhau ac esbonio'r uchod i gyd.

Er gwybodaeth i chi, rwy'n atodi amserlen o'r digwyddiadau allweddol yn ystod hynt y gwaith hwn yn Atodiad 1.



Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Yr Amserlen

- Hydref 2018: Swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dechrau trafodaethau am yr angen am fecanwaith i ddiogelu'r sawl sy'n derbyn cyllid yng Nghymru pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.
- Ionawr 2019: Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadarnhau i'w swyddogion cyfatebol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am yr angen i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn bod yr OS yn symud drwy'r Senedd.
- Chwefror – Mawrth 2019: Cafodd yr OS ei osod gerbron a'i wneud yn Senedd y DU.
- Diwedd Ebrill 2019: Daeth swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol am y tro cyntaf fod yr OS wedi'i osod a'i wneud.
- Mai – dechrau Gorffennaf 2019: Gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru ymgynghori â'u swyddogion cyfatebol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gadarnhau amgylchiadau torri'r Cytundeb Rhynglywodraethol, ac i bwysleisio'r angen am lythyr brys i Weinidogion Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymddiheuro am dorri'r cytundeb ac yn ceisio am gydsyniad ôl-weithredol ar gyfer yr OS.

[Sylwer: Gwnaethom dderbyn sicrwydd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod torri'r cytundeb yn ddamweiniol ac yn anfwriadol; yn ganlyniad i newid staff, swm y gwaith a ffactorau eraill.]

- 16 Gorffennaf 2019: Yna gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, Jeremy Wright CF AS, ysgrifennu ataf yn gofyn am gydsyniad ôl-weithredol. Gwnaeth gydnabod ac ymddiheuro am dorri'r cytundeb rhynglywodraethol yn anfwriadol.
- 12 Awst 2019: Ymatebais i'r Ysgrifennydd Gwladol newydd, y Gwir Anrhydeddus Nicky Morgan AS. Dywedais fy mod wedi cael fy sicrhau gan ddatganiadau ei rhagflaenydd fod y methiant yn anfwriadol a bod Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r Cytundeb Rhynglywodraethol, ond fy mod i'n ystyried y digwyddiadau hyn yn rhai difrifol tu hwnt – yn enwedig gan nad oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i hysbysu mewn da bryd. Dywedais y byddem yn derbyn cyngor pellach cyn ymateb i'r cais am gydsyniad ôl-weithredol.
- Awst – Hydref 2019: Gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru, yn ymwybodol o'r oedi i Brexit a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod y gwaith hwn, adolygu'r OS, y cais am gydsyniad ôl-weithredol a Chytundeb yr Asiantaeth i sicrhau:
 - nad yw torri'r Cytundeb Rhynglywodraethol (h.y.; y methiant i geisio cydsyniad ymlaen llaw) yn cael unrhyw effaith ar gyfreithlondeb yr OS;
 - ni fydd unrhyw leihau ar bŵer Gweinidogion Cymru gan nad yw'r OS yn rhoi unrhyw bwerau newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru;
 - cafodd Cytundeb yr Asiantaeth ei ddrafftio'n briodol, i alluogi i gyllid Gwarant Llywodraeth ei Mawrhydi gael ei gyflenwi yn ôl y galw i randdeiliaid Cymru tan fod rhaglenni cyfredol yr UE yn dod i ben ar ddiwedd 2020, er gwaethaf y dyddiad y gallai'r DU adael yr UE.
- 29 Hydref 2019: Cyflwynais fy natganiad ysgrifenedig ynghylch Rheoliadau'r Rhaglen Ewrop Greadigol a'r Rhaglen Ewrop i Ddinasyddion (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019

gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chymeradwywyd llofnodi'r Cytundeb Asiantaeth perthnasol.